| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **12 Mai 2016** |
| **Aelod Arweiniol/Swyddog:** | **Aelod Arweiniol Parth y Cyhoedd/ Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** |
| **Teitl:** | **Rheolau'r Cyngor ar gyfer Mynwentydd a'u Gorfodi** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Y rheolau sy'n berthnasol ar draws mynwentydd y sir, a sut y caiff y rheolau hyn eu rheoli a'u gorfodi.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae yna lefelau cynyddol o gwynion gan ddefnyddwyr mynwentydd, ynglŷn â'r tueddiad cynyddol i arddangosfeydd ac addurniadau gael eu rhoi ar feddi, a hefyd y defnydd o fynwentydd fel ardaloedd hamdden ar gyfer cŵn. Felly mae swyddogion yn ceisio cefnogaeth ar gyfer ymateb mwy cadarn i unrhyw achosion o dorri rheolau mynwentydd. Hefyd gofynnir i'r pwyllgor gymeradwyo'r modd mae'r galw am feinciau coffa nawr yn derbyn sylw.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod aelodau yn ystyried yr adroddiad, yn cyflwyno sylwadau ac yn cymeradwyo'r:

3.1 mesurau sy'n cael eu cynnig i wella cydymffurfiaeth gyda rheolau mynwentydd;

3.2 rheolyddion gweithredol sydd nawr ar waith mewn cysylltiad â'r defnydd o feinciau coffa; a'r

3.3 angen am Orchmynion Rheoli Cŵn gorfodadwy yn ein mynwentydd, a nodi y bydd yna ymgynghoriad pellach ar y cynllun arfaethedig yn ddiweddarach eleni.

## 4. Manylion.

### a) Y Rheol "Mynwent â Lawnt"

Mae'r rheolau sy'n llywodraethu mynwentydd y cyngor wedi eu cynnwys yn Atodiad Un (dyfyniad o'r Rheolau Mynwentydd 1999). Yr egwyddor sylfaenol, sy'n berthnasol ym mhob un o'n mynwentydd ers 1999, yw eu bod yn fynwentydd â lawnt". Mae hynny'n golygu; mai'r unig gofebau a ganiateir yw cerrig beddi wedi eu hadeiladu'n briodol, fel arfer wedi eu gosod ar blinth bach, lle gellir gosod fâs neu debyg. Ni chaniateir unrhyw adeiledd nac addurn uwchlaw'r bedd ei hun, ac mae yna arwyddion ym mhob un o'r

mynwentydd yn cadarnhau hyn. Mae prynwyr pob bedd ers hynny wedi cytuno i gydymffurfio â'r rheolau hyn e.e. fel amod yn y contract prynu.

**b) Gweithdrefnau gweithredu arferol**
Mae blodau fel arfer yn cael eu rhoi ar feddi adeg/tua adeg claddu, ac mae'r rhain yn cael eu gadael heb eu cyffwrdd am gyfnod o tua 3 wythnos e.e. nes bydd y blodau wedi marw. Yna maent yn cael eu tynnu oddi ar y bedd. Yna, mae'r ardal uwchlaw'r bedd yn cynnwys twmpath o bridd rhydd.

Mae beddi yn cael eu gwirio bob tua 6 wythnos i sicrhau eu bod mewn cyflwr taclus. Ar ôl tua 9 mis mae'r bedd yn cael ei "gorffen", i fod yr un lefel â'r ddaear o'i amgylch ac mae'r bedd yn cael ei hadu. Ni ellir gosod cerrig beddi tan oddeutu blwyddyn ar ôl y claddu. Mae'r amserlenni hyn yn angenrheidiol gan fod yna gyfnod naturiol o setliad ar ôl claddu.

**c) Torri rheolau'r fynwent â lawnt**
Yn anffodus, mae yna dueddiad cynyddol i berchnogion beddi newydd anwybyddu'r rheol mynwent â lawnt, a rhoi gardd goffa fechan dros y beddi. Weithiau nid yw'r addurniadau yn addas, gyda deunydd o ansawdd gwael yn cael eu defnyddio e.e. goleuadau solar rhad ac ymylon gardd wedi eu prynu mewn siopau disgownt ar y stryd fawr e.e. yn aml iawn defnyddir pêl-droed a deunydd chwaraeon.
Mae'r addurniadau hyn yn tynnu oddi ar ymddangosiad cyffredinol y mynwentydd ac maent hefyd yn eu gwneud yn anoddach i'w cynnal a'u cadw. Gall presenoldeb yr addurniadau achosi gofid i berchnogion beddi cyfagos, sydd yna'n cwyno. Yr ardal lle mae'r broblem fwyaf amlwg yw adran 12 mynwent Prestatyn e.e. yr ardal fwyaf newydd yn ein mynwent brysuraf.

Fel mater o drefn mae swyddogion mynwentydd yn dweud wrth berchnogion beddi am dynnu addurniadau, ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn cydymffurfio â cheisiadau'r cyngor, fodd bynnag nid yw pawb yn gwneud hynny. Pan nad ydynt yn gwneud hynny, mae'r cyfiawnhad dros beidio â'u symud ar hyd y trywydd *"Byddaf yn symud fy rhai i pan fyddwch yn eu cael nhw i symud eu rhai nhw".*

**d) Camau i'w cymryd**
Er mwyn datrys y broblem hon a bodloni'r galw gan y mwyafrif o berchnogion beddi, mae swyddogion mynwentydd yn bwriadu ysgrifennu at berchnogion pob un o'r beddi sy'n troseddu. Yna dywedir wrth y perchnogion, oni bai bod yr eitemau'n cael eu symud, bydd y Cyngor yn eu symud (a dychwelyd y bedd i'r lawnt). Y bwriad yw ymgymryd â rhaglen waith o'r fath ym mis Medi gan mai dyma'r adeg gorau i hadu hadau glaswellt. Felly dylai perchnogion gael tua 6 mis o rybudd o'r bwriad i symud yr addurniadau. Yn dilyn hynny bydd gorfodaeth yn dechrau os/pan fydd angen.

Mae lleiafrif bychan o berchnogion beddi yn debyg o wrthod gorfodaeth y rheol mynwentydd â lawnt, hyd yn oed os ydynt i gyd wedi arwyddo contract yn cytuno i gydymffurfio. Felly dylai aelodau ddisgwyl rhywfaint o sylw yn y wasg am y broblem, os/pan fydd yr addurniadau'n cael eu tynnu. Wrth gwrs, gall pobl fod yn emosiynol iawn am fedd eu hanwyliaid, felly mae'r cyngor yn debyg o gael ei bortreadu fel sefydliad dideimlad.

**e) Defnyddio mynwentydd fel ardaloedd hamdden i gŵn.**
Mae'n ymddangos bod yna dueddiad cynyddol i bobl ddefnyddio mynwentydd fel ardaloedd i gerdded eu cŵn. Mae llawer yn ymweld â'r fynwent yn rheolaidd, yn un

pwrpas, weithiau yn cyrraedd mewn cerbyd. Mae arwyddion yn cael eu harddangos yn dweud “dim cŵn”, ond mae’r rhain yn cael eu hanwybyddu. Nid yw’n syndod fod baw cŵn a chŵn yn gwneud dŵr ar gerrig beddi bellach yn broblem fawr. Dyma’r un pwnc lle ceir y mwyaf o gwynion.
Bydd adran Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor yn ymgynghori yn ddiweddarach eleni ar Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus, a fydd yn gwahardd cŵn rhag mynd ar fathau arbennig o dir e.e. maes chwarae caeedig i blant, lleiniau chwaraeon ac ati a bydd cŵn angen bod ar dennyn ar dir arall. Felly, bydd mynwentydd yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.

Barn y gwasanaeth mynwentydd yw y dylai cŵn gael eu gwahardd o fynwentydd yn gyfan gwbl (heblaw cŵn tywys cofrestredig). Y broblem gyda’r rheol “tennyn yn unig” yw fod gan lawer o gerddwyr cŵn dennyn hir y gellir ei ymestyn, felly mae’r cŵn yn dal i allu gwneud dŵr ar gerrig beddi, a gall perthnasau weld y staen wedyn (ac yn naturiol gall hyn achosi gofid iddynt).

**f) Materion eraill sydd hefyd yn derbyn sylw**

i) Ym mynwent Prestatyn, mae beddi wedi cael eu difrodi gan gerbydau sydd wedi bod yn defnyddio’r llwybrau troed i gyrraedd ymyl y bedd. Roedd swyddogion wedi gosod pyst y gellir eu tynnu i atal hyn rhag digwydd, ond cafodd y pyst eu difrodi, y tybir gan bobl oedd yn dal eisiau mynediad at y bedd yn eu cerbyd. Bydd y pyst nawr yn cael eu disodli gan fersiwn llawer cryfach, wedi eu concritio i’w lle. Bydd sgwteri symudol yn dal i allu mynd heibio, ond nid ceir.

ii) Mae absenoldeb canllaw mewn mannau serth ym mynwent Prestatyn wedi’i nodi’n broblem, felly mae canllawiau nawr yn mynd i gael eu darparu.

iii) Mae perchnogion beddi yn aml yn gofyn os gallant osod meinciau coffa mewn mynwentydd. Yn y gorffennol; roedd pobl yn cael darparu eu meinciau coffa eu hunain, ac roedd hyn yn arwain at gyfres o wahanol arddull ac ansawdd yn cael eu defnyddio. Mae’r gwasanaeth nawr yn darparu’r holl feinciau angenrheidiol ei hun, a bydd lle ar bob mainc ar gyfer tri phlac coffa, a gyflwynir i berchnogion beddi ar sail y cyntaf i’r felin. Bydd y perchnogion yn talu pris llawn y placiau. Mae’r gweithdrefnau ar wefan y cyngor, ac mae’r tair mainc newydd cyntaf eisoes wedi eu gosod ym Mhrestatyn (gweler Atodiad Dau).

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Yn 2013, mabwysiadodd y Cyngor y Strategaeth Parth Cyhoeddus a’i ddiben oedd cyflawni Blaenoriaeth Gorfforaethol y Cyngor i gynhyrchu amgylchedd deniadol. Roedd y Strategaeth Parth Cyhoeddus yn cynnwys ymrwymiad i *“gynnal ein hardaloedd parth cyhoeddus mewn cyflwr twt a thaclus, a chymryd camau gorfodi* yn erbyn pobl sy’n ei ddifrodi, difwyno neu ei ddifetha”.
Roedd y broblem baw cŵn mewn man agored cyhoeddus wedi’i nodi gan y Cyngor fel un o’i brif flaenoriaethau pan oedd y strategaeth yn cael ei datblygu.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Gall costau gael eu cynnwys yn llwyr o fewn lefelau cyllideb presennol. Bydd swyddogion mynwentydd yn cysylltu â swyddogion Gwarchod y Cyhoedd cyn lansio’r ymgynghoriad ar Orchmynion Rheoli Cŵn.

## 7. Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb – Gweler Atodiad Tri

Y prif gasgliad yw bod pob ymdrech rhesymol wedi'i wneud i sicrhau na effeithir yn anghymesur ar bobl â nodweddion a ddiogelir gan y camau arfaethedig.
Mae'r rheolyddion ar fynediad i gerbydau yn angenrheidiol am resymau iechyd a diogelwch ac i osgoi difrod i feddi. Bydd sgwteri symudol yn dal i allu cael mynediad, a bydd meinciau a chanllawiau'n cael eu darparu i gynorthwyo pobl i symud a/neu orffwys.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

a) Ymgynghorwyd ag ymgymerwyr pan gafodd y rheolau mynwentydd eu drafftio.
b) Ymgynghorwyd â staff gwasanaeth am y mentrau a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn ac maent yn gwbl gefnogol i'r cynnig, oherwydd eu bod yn derbyn mwy o gwynion gan berchnogion beddi gofidus.
c) Bydd yna ymgynghoriad llawn yn ddiweddarach eleni ar y Gorchmynion Rheoli Cŵn.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae yna risg o niwed i enw da oherwydd ymateb gwrthwynebus defnyddwyr mynwentydd yr effeithir arnynt. Mae yna hefyd risg y gall staff gael eu bygwth. Bydd unrhyw fygythiadau yn erbyn staff yn cael eu trin yn ddifrifol, a chysylltir â'r heddlu os/pan fydd angen.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae yna faterion gweithredol ac felly wedi eu dirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth priodol. Bydd unrhyw geisiadau dilynol am Orchmynion Rheoli Cŵn yn destun y gweithdrefnau statudol arferol.

Mae grymoedd y Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â pherfformiad y Cyngor mewn cysylltiad ag amcanion polisi'r Awdurdod wedi eu hamlinellu yn Erthygl 6.3.4(b) o'r Cyfansoddiad.

***ATODIADAU:***

*1. Dyfyniad o Reolau Mynwentydd CSDd*
*2. Lluniau o feinciau ym Mynwent Prestatyn*
*3. Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb*

**Swyddogion Cyswllt:**
Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Ffôn: 01824 706801

Rheolwr Swyddogaeth Strydwedd ar draws y Sir
Ffôn: 01824 708136

Swyddog Mynwentydd
Ffôn: 01824 712106